Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth

Mehefin 2019



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddNHAMG@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddNHAMG**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth

Mehefin 2019

www.cynulliad.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Mike Hedges AC**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Andrew RT Davies AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru



**John Griffiths AC**
Llafur Cymru
Dwyrain Casnewydd



**Llyr Gruffydd AC**
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



**Dai Lloyd AC**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



**Jenny Rathbone AC**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



**Joyce Watson AC**
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor wrth graffu ar y Bil.



**Gareth Bennett AC**
UKIP Cymru
Canol De Cymru

# Cynnwys

**Casgliadau** .... **5**

**Cyflwyniad** .... **6**

**1. Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol** .... **7**

1. 1. Ein dull o weithredu .... 7

**2. Y darpariaethau y gofynnir am gydsyniad ar eu cyfer** .... **8**

2. 1. Yr ardoll cig coch .... 8

Y cefndir .... 8

Y darpariaethau y gofynnir am gydsyniad ar eu cyfer .... 8

Tystiolaeth gan randdeiliaid .... 9

Ein barn ni .... 11

2. 2. 0Darpariaethau Sefydliad Masnach y Byd .... 11

Y cefndir .... 11

Ein casgliadau cychwynnol ar ddarpariaethau Sefydliad Masnach y Byd .... 12

Y wybodaeth ddiweddaraf am ddarpariaethau Sefydliad Masnach y Byd .... 13

Y Cytundeb Dwyochrog .... 13

Tystiolaeth gan randdeiliaid .... 14

Tystiolaeth gan y Gweinidog .... 15

Ein barn ni .... 16

2. 3. Pwerau sy'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol .... 17

Y cefndir .... 17

Y darpariaethau y gofynnir am gydsyniad ar eu cyfer .... 18

Ein gwaith blaenorol ar y Bil Amaethyddiaeth .... 18

Tystiolaeth gan randdeiliaid .... 18

Ein barn ni .... 19

**Atodiad 1** .... **20**

**Atodiad 2** .... **22**

# Casgliadau

**Casgliad 1.** Rydym yn croesawu'r ffaith bod darpariaethau ynghylch yr ardoll cig coch (cymal 29 newydd) wedi'u cynnwys yn y Bil. Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i beidio â defnyddio'r cynnydd mewn derbyniadau a ddaw yn sgil ailberchnogi'r lefi i gymryd lle'r cyllid presennol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i Hybu Cig Cymru. ....................Tudalen 11

**Casgliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Lywodraeth y DU gytuno i ddiwygio'r Bil i fynd i'r afael â phryderon y Pwyllgor ynghylch cymal 28. ....................Tudalen 17

**Casgliad 3.** Rydym yn croesawu'r ffaith bod y darpariaethau newydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 3, Rhan 2 o'r Bil, a fydd yn golygu bod modd parhau i wneud taliadau uniongyrchol y tu hwnt i 2020. ....................Tudalen 19

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell y dylai'r Cynulliad roi cydsyniad i'r darpariaethau ym Mil Amaethyddiaeth y DU, yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn ein hadroddiad cyntaf. Mae'r ail gasgliad yn yr adroddiad hwn yn disodli casgliad 19 yn ein hadroddiad cyntaf (sy'n ymwneud â darpariaethau Sefydliad Masnach y Byd).

Os na ellir bodloni'r amodau uchod, rydym yn argymell y dylai'r Cynulliad roi cydsyniad i ddwy ran o'r Bil yn unig, sef Rhan 8 (yr Ardoll Cig Coch) a'r darpariaethau yn Rhan 2 o Atodlen 3 sy'n golygu bod modd i gymorth ariannol barhau ar unwaith ar ôl Brexit, hyd nes y gellir cyflwyno Bil Amaethyddiaeth (Cymru).

O dan y fath amgylchiadau, byddem yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gyflwyno Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol newydd.

# Cyflwyniad

**1.** Dyma ail adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (y Pwyllgor) ar Fil Amaethyddiaeth Llywodraeth y DU (y Bil). Cyhoeddwyd ein hadroddiad cyntaf ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil ym mis Ionawr 2019. Yn yr adroddiad hwnnw, argymhellwyd y dylai'r Cynulliad roi ei gydsyniad i'r darpariaethau yn y Bil, yn ddarostyngedig i nifer o amodau.

**2.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein casgliadau ar y prif newidiadau a wnaed i'r Bil yng Nghyfnod y Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin, sef y newidiadau y mae Llywodraeth Cymru bellach yn gofyn am gydsyniad ar eu cyfer (gweler Pennod 2). Mae'n adeiladu ar y casgliadau yn ein hadroddiad cyntaf a dylid darllen yr adroddiad hwn ar y cyd â'r adroddiad hwnnw.

**3.** Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn llawn i'r adroddiad cyntaf eto.

# 1. Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

**4.** Wrth i ni ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth (y Memorandwm cyntaf), diwygiwyd y Bil yng Nghyfnod y Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin. Rhoddodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (y Gweinidog) wybod i ni y byddai'n gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Atodol) ar adeg briodol. Gosododd y Gweinidog y Memorandwm Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth ar 26 Mawrth 2019.

**5.** Ar 2 Ebrill, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Atodol at y Pwyllgor hwn i'w drafod, gan nodi y dylid cyflwyno adroddiad arno erbyn 11 Mehefin 2019.

## 1. 1. Ein dull o weithredu

**6.** Ystyriwyd y Memorandwm Atodol yn ein cyfarfodydd ar 3 Ebrill 2019, 8 Mai 2019 a 6 Mehefin. Gwnaethom ysgrifennu at randdeiliaid perthnasol yn gofyn am eu barn ar y darpariaethau y mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am gydsyniad ar eu cyfer, ac ar gytundeb dwyochrog Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar ddarpariaethau Sefydliad Masnach y Byd yn y Bil. Defnyddiwyd yr ymatebion a ddaeth i law, ynghyd â'r dystiolaeth a gafwyd ar y Memorandwm cyntaf, i lywio ein hystyriaeth o'r Memorandwm Atodol.

**7.** Ar 6 Mawrth 2019, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Hybu Cig Cymru fel rhan o ymchwiliad ar wahân. Gwnaethom fanteisio ar y cyfle i holi Hybu Cig Cymru am y diwygiadau i'r Bil yn ymwneud â'r ardoll cig coch (gweler paragraff 14), y gofynnir am gydsyniad ar eu cyfer yn y Memorandwm Atodol.

**8.** Gwnaethom hefyd ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am eglurhad pellach o'r hyn a wnaed gan Lywodraeth Cymru i fodloni ei phryderon ynghylch y darpariaethau mewn perthynas â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth. Mae copi o'n llythyr ac ymateb y Gweinidog i'w gweld ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

# 2. Y darpariaethau y gofynnir am gydsyniad ar eu cyfer

**9.** Fel y nodwyd, gwnaed nifer o ddiwygiadau i'r Bil yn ystod Cyfnod y Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin y mae angen cydsyniad y Cynulliad ar eu cyfer. Mae gweddill y Bennod hon yn nodi manylion y diwygiadau sylweddol sydd o ddiddordeb mwyaf i'r Pwyllgor. Mae manylion y diwygiadau eraill i'w gweld ym mharagraffau 20 i 24 o'r Memorandwm Atodol[1].

## 2. 1. Yr ardoll cig coch

### Y cefndir

**10.** Ffi a delir gan yr holl gynhyrchwyr a chigyddwyr yn y man lladd (neu'r man allforio byw) yw'r ardoll cig coch. Telir yr ardoll i'r bwrdd ardollau perthnasol i'w alluogi i dalu ei dreuliau wrth gefnogi'r diwydiant cig coch yn y wlad lle codir yr ardoll.[2]

**11.** Pan gyflwynwyd y Bil yn Senedd y DU, mynegodd y Gweinidog siom nad oedd yn mynd i'r afael â diffygion y system ardollau cig coch bresennol. Eglurodd y byddai gwaith pellach yn cael ei wneud i sicrhau diwygiadau i'r Bil i ddarparu ar gyfer ailddosbarthu'r ardoll.[3]

**12.** Diwygiwyd y Bil yng Nghyfnod y Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin i gynnwys y darpariaethau hyn, ac mae'r Memorandwm Atodol yn gofyn am gydsyniad ar eu cyfer.

### Y darpariaethau y gofynnir am gydsyniad ar eu cyfer

**13.** Mae cymal 29 newydd y Bil (fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod y Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin) yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â'r ardoll cig coch. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer y darpariaethau hyn.

---

[1] www.assembly.wales/laid%20documents/lcm-ld12461/lcm-ld12461-w.pdf

[2] Y byrddau ardoll cig coch yw: Hybu Cig Cymru (Cymru), Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (Lloegr), a Quality Meat Scotland (yr Alban).

[3] https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cyflwyniad-i-fil-amaethyddiaeth-y-du?_ga=2.134027470.1510894134.1559202891-209943455.1559202891

**14.** Mae'r Memorandwm Atodol yn amlygu'r problemau sy'n gysylltiedig â'r system ardoll cig coch bresennol:

> "Mae ardollau, felly, yn seiliedig ar leoliad daearyddol lladd-dai, yn hytrach nag ar y man o le y daw'r da byw, ac nid ydynt yn rhoi ystyriaeth i'r patrymau masnachu ar draws ffiniau Prydain Fawr. O'r herwydd, mae'n bosibl y bydd yr ardoll a delir gan gynhyrchwyr sy'n gweithredu mewn un rhan o Brydain yn cael ei ddefnyddio i ariannu gweithgareddau hyrwyddo a datblygu mewn rhan arall ohoni."[4]

**15.** Mae cymal 29 newydd (Yr Ardoll Cig Coch: taliadau rhwng cyrff ardollau ym Mhrydain Fawr) yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban (fel y bo'n briodol) i sefydlu cynllun ar y cyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau ardollau ym Mhrydain Fawr ailddosbarthu'r ardoll rhwng ei gilydd. Y bwriad yw y bydd hyn yn galluogi'r rhai sy'n buddsoddi mewn bridio a magu da byw i elwa ar yr ardoll a gesglir mewn perthynas â'u da byw hwy, hyd yn oed os bydd yr ardoll yn cael ei gasglu gan ladd-dy sydd mewn gwlad arall ym Mhrydain Fawr.

**16.** Mae'r Memorandwm Atodol yn esbonio bod Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y cymal newydd yn darparu modd priodol i ddatrys yr "anghysonderau sy'n bodoli ar hyn o bryd" yn y system ardollau. Mae'n mynd ymlaen i ddweud bod y Bil "yn gyfle delfrydol i gael y pwerau angenrheidiol i gyflwyno cynllun priodol a fydd yn cywiro'r anghydbwysedd hwn".[5]

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**17.** Roedd yr holl ymatebwyr yn cefnogi cynnwys cymal 29 newydd fel ffordd o ddarparu trefniant i sicrhau bod yr ardoll cig coch yn cael ei dosrannu yn decach.

**18.** Esboniodd Hybu Cig Cymru ddiffygion y fethodoleg gyfredol wrth ddosrannu'r ardoll cig coch:

> "[it] fails to take into account the trading patterns that exist across GB borders. Levy paid by the producers who are breeding, rearing and finishing animals in one country may be used to fund the red meat promotional and developmental activities in another. Furthermore, the system is extremely vulnerable to changes and restructuring within the

[4] www.assembly.wales/laid%20documents/lcm-ld12461/lcm-ld12461-w.pdf

[5] www.assembly.wales/laid%20documents/lcm-ld12461/lcm-ld12461-w.pdf

> abattoir sector and the long-term trend has been towards fewer larger abattoirs located more closely to large centres of population.
>
> …each Red Meat Levy Board is accountable both to their respective Ministers and to their levy payers. As a result, the perceived lack of accountability and inequality within red meat levy apportionment, in regard to the benefit levy payers receive when their livestock are slaughtered in a different country, is a key consideration for the Red Meat Levy Boards in agreeing a change to the levy system.[6]

**19.** Roedd Gwyn Howells, Prif Weithredwr Hybu Cig Cymru, yn croesawu'r darpariaethau ac yn gobeithio y byddent yn cywiro'r anghywirdeb a'r anghysondeb y mae Cymru wedi'u dioddef am lawer rhy hir.[7] Eglurodd y gallai'r cynllun newydd arwain at ddychwelyd rhwng £1 miliwn ac £1.5 miliwn y flwyddyn i Gymru, a fyddai'n gynnydd o 40 y cant yng nghyllid Hybu Cig Cymru.[8]

**20.** Dywedodd Gwyn Howells wrth y Pwyllgor ei fod yn gobeithio na fyddai'r cynnydd disgwyliedig mewn derbyniadau o'r ardoll yn arwain at ostyngiad mewn cyllid canolog, a phwysleisiodd yr angen am ragor o adnoddau i ddiogelu'r marchnadoedd presennol ac adeiladu marchnadoedd newydd ar gyfer cynnyrch cig coch o Gymru.[9]

**21.** Cadarnhaodd Hybu Cig Cymru ei fod yn fodlon ar y darpariaethau, fel y'u drafftiwyd, ac na welai ddim rheswm dros gynnwys manylion pellach yn y Bil naill ai mewn perthynas â rôl y byrddau ardollau wrth ddatblygu'r cynllun neu'r materion y gall y cynllun wneud darpariaethau yn eu cylch.[10]

**22.** Eglurodd Hybu Cig Cymru fod y tri bwrdd ardollau eisoes yn gweithio ar fethodoleg ar gyfer dosrannu ardollau yn y dyfodol a byddant yn cyflwyno methodoleg cytunedig i Weinidogion maes o law.[11]

---

[6] Tystiolaeth ysgrifenedig, Hybu Cig Cymru

[7] Cofnod y Trafodion, paragraff 6, 6 Mawrth 2019

[8] Cofnod y Trafodion, paragraff 11, 6 Mawrth 2019

[9] Cofnod y Trafodion, paragraff 70, 6 Mawrth 2019

[10] Tystiolaeth ysgrifenedig, Hybu Cig Cymru

[11] Tystiolaeth ysgrifenedig, Hybu Cig Cymru

## Ein barn ni

Mae'r sector cig coch yng Nghymru wedi bod yn trafod ailberchnogi'r ardoll cig coch ers amser maith, a bu galw am system decach o ddosrannu'r ardoll ers blynyddoedd lawer. Rydym yn falch, felly, fod y mater bellach yn cael sylw.

Rydym yn cydnabod mai Bil y DU fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni system a fyddai'n galluogi i'r ardoll gael ei hailddosbarthu ledled Prydain Fawr.

Rydym yn nodi y bydd y darpariaethau newydd yn arwain at gynnydd sylweddol yn nifer derbyniadau'r ardoll. Fodd bynnag, nid yw'n glir a fydd hyn yn arwain at gynnydd mewn cyllid i Hybu Cig Cymru ac felly o fudd ymarferol i'r diwydiant cig coch yng Nghymru.

**Casgliad 1.** Rydym yn croesawu'r ffaith bod darpariaethau ynghylch yr ardoll cig coch (cymal 29 newydd) wedi'u cynnwys yn y Bil. Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i beidio â defnyddio'r cynnydd mewn derbyniadau a ddaw yn sgil ailberchnogi'r lefi i gymryd lle'r cyllid presennol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i Hybu Cig Cymru.

## 2. 2. 0Darpariaethau Sefydliad Masnach y Byd

### Y cefndir

**23.** Yn y Memorandwm cyntaf[12], mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am gydsyniad y Cynulliad i'r darpariaethau yn y Bil mewn perthynas â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth (darpariaethau Sefydliad Masnach y Byd). Mae'r darpariaethau i'w gweld yng nghymal 28 (cymal 26 yn flaenorol) o'r Bil.

**24.** Mae Cymal 28 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ynghylch sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth. Bydd y pwerau hyn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol: i benderfynu'n derfynol sut i gategoreiddio'r cymorth ariannol ar gyfer y sector amaethyddol ledled y DU; i bennu terfynau gwariant ar gyfer y DU gyfan; i bennu terfynau unigol o ran cymorth ariannol ym mhob un o'r gweinyddiaethau datganoledig; a phennu terfynau ariannu gwahanol ym mhob un o'r gweinyddiaethau datganoledig.

[12] www.assembly.wales/laid%20documents/lcm-ld11765/lcm-ld11765-w.pdf

**25.** Mae'r materion y mae'r darpariaethau'n ymwneud â hwy wedi'u cadw yn ôl ym marn Llywodraeth y DU. O'r herwydd, nid yw'n ystyried bod angen cydsyniad y Cynulliad.

**26.** Pan gyflwynwyd y Bil yn Senedd y DU, dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig:

> "Mae Gweinidogion Cymru wedi sicrhau cytundeb pwysig gan Llywodraeth y DU i ymrwymo yn y Senedd i ymgynghori â'r Gweinyddiaethau Datganoledig ar reoliadau sy'n gysylltiedig â'r WTO. Rydym hefyd wedi cytuno i ddod o hyd i broses ar gyfer sut y bydd rheoliadau o'r fath yn cael eu llunio. Fodd bynnag, mae ymrwymiad i ymgynghori yn annigonol o ystyried pwysigrwydd y mater hwn. Byddwn felly yn parhau i weithio tuag at gytundeb sy'n sicrhau bod cysylltiad priodol gyda safbwyntiau Gweinidogion Cymru a gweinyddiaethau eraill ac ystyriaeth ohonynt."[13]

## Ein casgliadau cychwynnol ar ddarpariaethau Sefydliad Masnach y Byd

**27.** Ym Mhennod 7 o'n hadroddiad cyntaf[14], amlinellwyd ein pryderon am y pwerau yng nghymal 28, yn enwedig y rhai a fyddai'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i bennu sut y caiff cymorth ariannol ei gategoreiddio ledled y DU, a phennu terfynau ar lefelau cymorth domestig. Daethom i'r casgliad y gallai'r darpariaethau hyn fod yn rhwystr i Lywodraeth Cymru wrth iddi geisio llunio cynlluniau cymorth amaethyddol yn y dyfodol sy'n bodloni anghenion penodol y sector amaeth yng Nghymru.

**28.** Gwnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i ofyn am ddiwygiad i gymal 28, i roi rôl glir i Weinidogion Cymru a gweinyddiaethau datganoledig eraill wrth benderfynu sut i gategoreiddio cymorth ariannol a therfynau gwariant. Er mai diwygio'r Bil fyddai'r dewis gorau yn ein barn ni, gwnaethom awgrymu dewis arall hefyd, sef cytundeb ffurfiol, cyhoeddedig, rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r materion hyn.

[13] https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cyflwyniad-i-fil-amaethyddiaeth-y-du?_ga=2.134673457.1510894134.1559202891-209943455.1559202891

[14] www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12020/cr-ld12020-w.pdf

## Y wybodaeth ddiweddaraf am ddarpariaethau Sefydliad Masnach y Byd

**29.** Mae'r Memorandwm Atodol yn rhoi diweddariad ar safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â darpariaethau Sefydliad Masnach y Byd.[15]

**30.** Mae'n egluro bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi cytuno ar ffordd o lywodraethu'r defnydd o bwerau'r Ysgrifennydd Gwladol a nodir yng nghymal 28, "fel y bo buddiannau pob rhan o'r DU yn cael eu hystyried yn llawn".[16] Mae'r ffordd hon o lywodraethu wedi'i nodi yng nghytundeb dwyochrog Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar ddarpariaethau Sefydliad Masnach y Byd yn y Bil Amaethyddiaeth, Mawrth 2019, (y Cytundeb Dwyochrog).

**31.** Yn ôl y Memorandwm Atodol, mae'r Cytundeb Dwyochrog yn darparu "trefniadau cryf sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru fynegi barn". Mae'n mynd ymlaen i ddweud:

> "Mae hwn yn ganlyniad da sy'n rhoi rôl gref a hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ac fe'i sicrhawyd ar ôl llawer o gydweithio effeithiol rhwng y llywodraethau. Mae'n fodel gwerthfawr y gellid ei ddefnyddio mewn meysydd eraill lle mae angen i lywodraethau gydweithredu ac mae'n arwydd o ymrwymiad y ddwy lywodraeth i gydweithio."[17]

**32.** Mae'r Memorandwm Atodol yn egluro bod Cytundeb Dwyochrog bellach wedi'i gytuno ar sut y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn arfer y pwerau sy'n ymwneud â darpariaethau Sefydliad Masnach y Byd. Yn sgil y Cytundeb Dwyochrog, mae Llywodraeth Cymru bellach yn fodlon ar ddarpariaethau Sefydliad Masnach y Byd.[18]

## Y Cytundeb Dwyochrog

**33.** Mae'r Cytundeb Dwyochrog yn nodi'r trefniadau ar gyfer gwneud y rheoliadau cychwynnol o dan gymal 28:

- Bydd swyddogion Defra yn rhannu gyda chynrychiolwyr yr Adran Amaeth gynigion i wneud rheoliadau o dan bwerau Sefydliad Masnach y Byd yn y Ddeddf Amaethyddiaeth.

15 www.assembly.wales/laid%20documents/lcm-ld12461/lcm-ld12461-w.pdf

16 www.assembly.wales/laid%20documents/lcm-ld12461/lcm-ld12461-w.pdf

17 www.assembly.wales/laid%20documents/lcm-ld12461/lcm-ld12461-w.pdf

18 www.assembly.wales/laid%20documents/lcm-ld12461/lcm-ld12461-w.pdf

- Bydd rheoliadau drafft yn cael eu cyflwyno i bedwar Gweinidog amaethyddiaeth y DU gyda'r nod o sicrhau cytundeb, a bydd llythyrau'n cael eu cyfnewid ar ôl hynny. Byddai hyn yn rhoi cyfle i weinyddiaeth ddatganoledig nodi ei safbwynt, ac i Ysgrifennydd Gwladol Defra esbonio'r rhesymau am ffurf derfynol y rheoliadau a sut y mae Llywodraeth y DU wedi ceisio dod i gytundeb.

- Bydd Gweinidogion yn ceisio bwrw ymlaen drwy ddod i gytundeb, ond pe bai anghydfod, ymdrinnir â'r mater yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth presennol ynghylch cysylltiadau rhynglywodraethol.

- Os bydd anghydfod, ar ôl rhoi cynnig ar yr holl ymdrechion i'w ddatrys, dylid sicrhau bod y llythyrau a gafodd eu cyfnewid ar gael i ddau Dŷ Senedd y DU cyn y bleidlais gadarnhaol ar y rheoliadau o dan gymal 28.[19]

**34.** Mae ail ran y Cytundeb Dwyochrog yn cynnig model pellach y gall y gweinyddiaethau ei ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau ynghylch categorïau Sefydliad Masnach y Byd a pharhau i weithredu'r rheoliadau o dan gymal 28. Os na ellir dod i gonsensws drwy'r ffyrdd cyfredol o ddatrys anghydfodau, bydd materion yn cael eu cyfeirio at banel arbenigol am gyngor annibynnol. Pwrpas y panel yw paratoi barn annibynnol, arbenigol ar y mater dan sylw. Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol roi sylw i gyngor y panel wrth wneud penderfyniad terfynol.[20]

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**35.** Mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn cyfeirio at yr angen am brotocol rhwng y Llywodraethau i sicrhau bod y DU yn parhau i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau i Sefydliad Masnach y Byd. Mae'n falch, felly, fod y Cytundeb Dwyochrog wedi'i gyrraedd.[21]

**36.** Mae Dr Petetin a Dr Dobbs yn nodi bod y Cytundeb Dwyochrog yn gam i'r cyfeiriad cywir i Gymru gadw'r pwerau sydd ganddi ar hyn o bryd o dan y Polisi

[19] www.gov.uk/government/publications/agriculture-bill-progress-with-devolved-administrations/uk-and-welsh-government-bilateral-agreement-on-wto-provisions-within-the-agriculture-bill

[20] www.gov.uk/government/publications/agriculture-bill-progress-with-devolved-administrations/uk-and-welsh-government-bilateral-agreement-on-wto-provisions-within-the-agriculture-bill

[21] Tystiolaeth ysgrifenedig, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr

Amaethyddol Cyffredin. Serch hynny, maent yn ailadrodd y pryderon a godwyd ganddynt yn eu tystiolaeth ar gyfer ein hadroddiad cyntaf, gan ddweud:

> "(i) Clause 28 [of the Bill] still exceeds what is required [to ensure compliance with the WTO Agreement on Agriculture]; (ii) it effectively gives powers to the SoS that currently belong to the devolved administrations; and (iii) the [Bilateral] Agreement does little to effectively ensure that Wales keeps the powers it currently has. To the contrary, Clause 28 indeed leads to a recentralisation of powers as to the financial support for farmers and the design of support schemes across the UK."[22]

**37.** Maent hefyd yn dweud:

> "…overall, the [Bilateral Agreement] is too narrow in scope and ignores key concerns. It is a soft-law instrument by nature and could be modified (or even ignored) by future governments. A potential recentralisation [of powers] cannot be overlooked. The challenge is less what the current UK Government might do now, but what a future UK Government might do in a new context."[23]

## Tystiolaeth gan y Gweinidog

**38.** Wrth ymateb i bryderon y Pwyllgor nad yw'r Cytundeb Dwyochrog yn ddigon cadarn i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried a'u diogelu'n briodol, dywedodd y Gweinidog:

> "Mae'r Cytundeb yn amlinellu'r broses gadarn sy'n sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol. Rwy'n gallu cadarnhau bod y Cytundeb rwyf wedi'i wneud gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yn llawer mwy nag ymrwymiad i gynnal ymgynghoriad, ac mae'n seiliedig ar ofyniad i weithredu ar sail consensws. Lle nad yw'n bosibl dod i gonsensws, mae'r Cytundeb yn gosod mecanweithiau clir a thryloyw y mae'n rhaid eu defnyddio i ddatrys anghydfodau…
>
> Mae mecanwaith sy'n rhoi rôl glir i Weinidogion Cymru wrth benderfynu ar ddosbarthiadau cymorth ariannol hefyd yn rhan o'r Cytundeb."

---

[22] Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Ludivine Petetin a Dr Mary Dobbs

[23] Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Ludivine Petetin a Dr Mary Dobbs

**39.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog egluro a oedd wedi gofyn i Lywodraeth y DU ddiwygio cymal 28 i fynd i'r afael â phryderon y Pwyllgor. Eglurodd fod gwaith yn mynd rhagddo ar "becyn helaeth i fynd i'r afael â'r pryderon a leisiwyd gan y Pwyllgor yn ei adroddiad" ar y Memorandwm cyntaf, a bod "cynnydd da yn cael ei wneud".

## Ein barn ni

Rydym yn nodi'r gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddatrys materion mewn perthynas â darpariaethau Sefydliad Masnach y Byd ers i ni adrodd ar y Bil Amaethyddiaeth gyntaf, a bod Cytundeb Dwyochrog rhwng y llywodraethau bellach wedi'i gyhoeddi. Er gwaethaf y sicrwydd pellach a roddwyd gan y Gweinidog, nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod y Cytundeb hwn yn ddigon cadarn i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried neu eu diogelu'n briodol.

Rydym yn nodi honiad y Gweinidog bod y Cytundeb Dwyochrog yn rhoi mwy na rôl ymgynghorol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r rheoliadau drafft o dan gymal 38. Fodd bynnag, mae'n wir o hyd mai'r Ysgrifennydd Gwladol fydd â'r gair olaf ar y rheoliadau drafft, ac yn y pen draw, mater i Senedd y DU fydd penderfynu cymeradwyo'r rheoliadau ai peidio. O ystyried barn Llywodraeth Cymru bod darpariaethau Sefydliad Masnach y Byd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, a'r potensial i'r darpariaethau hyn rwystro Llywodraeth Cymru mewn maes cymhwysedd datganoledig, nid yw'n briodol yn ein barn ni.

Mae'r Cytundeb Dwyochrog yn cynnwys proses i ddatrys anghydfodau os na ellir dod i gytundeb ar gategorïau arfaethedig Sefydliad Masnach y Byd. Er bod hyn wedi cael ei atgyfnerthu ers y Cytundeb Dwyochrog drafft er mwyn cynnwys darparu cyngor annibynnol gan banel arbenigol, y gwir amdani yw mai'r Ysgrifennydd Gwladol fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol ynglŷn â chategoreiddio cymorth domestig.

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud yn glir mewn adroddiadau blaenorol y byddai gadael yr UE yn golygu bod angen perthnasau rhynglywodraethol newydd. Rydym wedi galw am fodel llywodraethu ar y cyd, gyda statws cyfartal i bob un o bedair rhan y DU. Os gwneir hynny, rydym wedi pwysleisio'r angen am: drefniadau annibynnol i ddatrys anghydfodau; trefniadau cymodi a dyfarnu; a thryloywder ac atebolrwydd. Nid yw'r model a amlinellir yn y Cytundeb Dwyochrog yn sicrhau hynny.

Fel y cyfeiriwyd ato mewn tystiolaeth gan randdeiliaid, ni waeth pa mor gadarn fydd unrhyw Gytundebau Dwyochrog fel hyn, nid ydynt yn gyfreithiol rwymol. Maent yn dibynnu ar ymrwymiad parhaus gan lywodraethau, a chydweithrediad parhaus rhyngddynt. Felly, rydym yn cwestiynu pa mor gynaliadwy fydd y cytundebau hyn.

At hynny, ymddengys fod mwy a mwy o ddibyniaeth ar gytundebau fel hyn i oresgyn anghytuno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar faterion sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol. Mae'n peri pryder i ni sut y bydd hyn yn effeithio ar y setliad datganoli.

O ystyried yr uchod, rydym yn credu mai'r ffordd fwyaf priodol o fynd i'r afael â phryderon ynghylch cymal 28 yw drwy ddiwygio'r Bil. At hynny, os yw Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddatrys y mater hwn, rydym yn cwestiynu pam nad yw'n barod i gynnwys y mesurau diogelu perthnasol yn y ddeddfwriaeth.

**Casgliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Lywodraeth y DU gytuno i ddiwygio'r Bil i fynd i'r afael â phryderon y Pwyllgor ynghylch cymal 28.

## 2. 3. Pwerau sy'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol

### Y cefndir

**40.** Yn y Memorandwm cyntaf[24], mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am gydsyniad y Cynulliad ar gyfer Atodlen 3 i'r Bil (Darpariaethau sy'n ymwneud â Chymru). Mae Rhan 2 o Atodlen 3 (Cymorth ariannol ar ôl ymadael â'r UE) yn cynnwys darpariaethau a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gael gwared ar daliadau uniongyrchol i ffermwyr yn raddol[25] er mwyn dechrau cyflwyno cynlluniau cymorth ariannol newydd. Mae Rhan 1 o'r Atodlen (Pwerau o ran cymorth ariannol) yn darparu ar gyfer sefydlu a gweithredu'r cynlluniau newydd hyn.

**41.** Mae Penodau 2 i 5 yn ein hadroddiad cyntaf yn cynnwys manylion pellach am yr uchod ac yn cyflwyno ein barn ar hyn.[26]

[24] www.assembly.wales/laid%20documents/lcm-ld11765/lcm-ld11765-w.pdf

[25] O dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr Undeb Ewropeaidd, mae ffermwyr yn cael cymorth ar ffurf taliadau uniongyrchol, yn seiliedig yn bennaf ar faint yr ardal sy'n cael ei ffermio.

[26] www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12020/cr-ld12020-w.pdf

**42.** Yn ystod Cyfnod y Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin, diwygiwyd Rhan 2 o'r Atodlen i gynnwys darpariaethau newydd mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol. Mae'r Memorandwm Atodol yn gofyn am gydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn.

### Y darpariaethau y gofynnir am gydsyniad ar eu cyfer

**43.** Mae Atodlen 3, Rhan 2, paragraff 7 newydd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ostwng y terfyn uchaf ar daliadau uniongyrchol i Gymru yn 2020 hyd at 15 y cant. Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru barhau i gynnig taliadau uniongyrchol yn 2020 ar yr un lefel â 2019.

**44.** Mae Atodlen 3, Rhan 2, paragraff 8 newydd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer parhau â'r cynllun taliad sylfaenol y tu hwnt i 2020. Mae hyn yn cynnwys pŵer i ragnodi'r dull o bennu'r terfyn uchaf ar daliadau uniongyrchol ar ôl 2020.

### Ein gwaith blaenorol ar y Bil Amaethyddiaeth

**45.** Gwnaethom ystyried y darpariaethau uchod fel rhan o'n gwaith ar y Memorandwm cyntaf. Yn ein hadroddiad ar y Memorandwm hwnnw, gwnaethom ystyried yr angen am ddeddfwriaeth a'r dull a ddilynwyd gan Lywodraeth Cymru i ddeddfu mewn perthynas â chymorth amaethyddol ar ôl Brexit. Daethom i'r casgliad bod achos dros ddeddfu "er mwyn gallu parhau i ddarparu cymorth ariannol i'r sector o dan y cynlluniau [Polisi Amaethyddol Cyffredin] presennol", ac nad oedd modd i gymorth ariannol barhau y tu hwnt i 2020 heb ddeddfwriaeth.[27]

**46.** O ystyried yr uchod, gwnaethom groesawu'r ffaith i baragraffau 7 ac 8 newydd gael eu cynnwys.

## Tystiolaeth gan randdeiliaid

**47.** Mae Dr Petetin a Dr Dobbs yn croesawu'r pwerau newydd (paragraffau 7 ac 8 newydd) fel ffordd o ddarparu mwy o hyblygrwydd na'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, a mwy o ddiogelwch, yn enwedig i ffermydd bach a theuluol. Serch hynny, maent yn pryderu am effaith y dull arfaethedig ar ffermwyr.[28]

**48.** Mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn croesawu'r pŵer newydd i ddarparu ar gyfer parhau'r cynllun taliadau sylfaenol fel ffordd o gynnig mwy o sefydlogrwydd i'r sector. Mae'n galw am ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i

[27] www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12020/cr-ld12020-e.pdf

[28] Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Ludivine Petetin a Dr Mary Dobbs

ymestyn y cyfnod pontio gan o leiaf flwyddyn am bob blwyddyn ychwanegol y bydd y cynllun taliadau sylfaenol yn parhau.[29]

**49.** Nid yw Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn cefnogi'r pŵer newydd i leihau'r terfyn uchaf yng Nghymru ar gyfer taliadau uniongyrchol am ei fod yn parhau i wrthwynebu'r syniad o ddargyfeirio arian i ffwrdd o daliadau uniongyrchol.[30]

## Ein barn ni

Rydym yn ailddatgan ein cefnogaeth i'r darpariaethau newydd, a fydd yn golygu bod modd i daliadau uniongyrchol i ffermwyr barhau y tu hwnt i 2020, a hyd nes y ceir barn sefydlog ar system addas o gymorth ariannol ar gyfer y sector amaethyddol ar ôl Brexit. Rydym yn croesawu'r sicrwydd a roddir i'r sector yn sgil hyn.

Serch hynny, rydym yn ailddatgan y pryderon a nodwyd yn ein hadroddiad cyntaf fod y Bil yn mynd ymhell y tu hwnt i sicrhau parhad cymorth ariannol drwy alluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno polisi amaethyddol newydd ar ôl Brexit: un sy'n dal i gael ei ddatblygu, sydd heb ei gostio na'i brofi eto, ac na fydd yn destun lefel briodol o graffu gan y Cynulliad.

**Casgliad 3.** Rydym yn croesawu'r ffaith bod y darpariaethau newydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 3, Rhan 2 o'r Bil, a fydd yn golygu bod modd parhau i wneud taliadau uniongyrchol y tu hwnt i 2020.

[29] Tystiolaeth ysgrifenedig, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr

[30] Tystiolaeth ysgrifenedig, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr

# Atodiad 1

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
—
**National Assembly for Wales**
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

Lesley Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

14 Mai 2019

Annwyl Lesley,

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Amaethyddiaeth**

Diolch i chi am eich llythyr, dyddiedig 26 Mawrth, yn ymdrin â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Amaethyddiaeth.

Cafodd y Pwyllgor drafodaeth gychwynnol ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn ei gyfarfod ar 8 Mai a chytunodd y dylwn ysgrifennu i geisio sicrwydd pellach gennych mewn perthynas â phwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan **Ran 7 o'r Bil (Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth)**.

Yn ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf, roeddem yn pryderu am y pwerau, yn enwedig y rhai a fyddai'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i benderfynu ar ddosbarthiad cymorth amaethyddol ledled y Deyrnas Unedig, a phennu terfynau ar lefelau cymorth domestig.

Nodwn y *Cytundeb dwyochrog rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar ddarpariaethau Sefydliad Masnach y Byd yn y Bil Amaethyddiaeth* ('y Cytundeb'), sy'n nodi'r broses lywodraethu ar gyfer defnyddio pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ran 7. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi eto fod y Cytundeb yn ddigon cadarn i sicrhau y caiff buddiannau Cymru eu hystyried neu eu diogelu'n briodol. **Rydym yn ceisio sicrwydd pellach gennych chi ar y mater hwn.** "Mae ymrwymiad i ymgynghori yn annigonol o gofio pwysigrwydd y mater hwn," meddech chi wrth y

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565

Pwyllgor hwn. Fodd bynnag, ar yr wyneb, y broses a ddisgrifir yn y Cytundeb yw i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddweud wrthym sut y mae'r cytundeb yn sicrhau lefel briodol o ymgysylltiad, uwchlaw a'r tu hwnt i ymgynghori.

Yn ei adroddiad, galwodd y Pwyllgor ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Llywodraeth y DU yn mynd i'r afael â hyn drwy gynnig gwelliant i ddarpariaethau Sefydliad Masnach y Byd, a rhoi rôl glir i Weinidogion Cymru a gweinyddiaethau datganoledig eraill yn y broses o benderfynu ar ddosbarthiad cymorth ariannol a therfynau gwariant. **Hoffem ichi egluro a ydych wedi gofyn i Lywodraeth y DU roi sylw i'r mater hwn, a rhoi manylion y canlyniad. Os nad ydych wedi gwneud hynny, hoffem i chi amlinellu'r rhesymau pam.**

Yn olaf, hoffwn droi at fater cysylltiedig, a gofyn ichi roi ryw syniad o ba bryd y gall y Pwyllgor ddisgwyl ymateb gan Lywodraeth Cymru i'w adroddiad ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf.

Fel y gwyddoch, y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yw **11 Mehefin**. O gofio hyn, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb cyn gynted â phosibl, ac erbyn **24 Mai**, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i ystyried eich ymateb yn ei adroddiad.

Yn gywir,



Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

# Atodiad 2

**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

21 Mai 2019

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Mai ynglŷn â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth. Mae'n bleser gennyf roi'r sicrwydd pellach rydych yn ei geisio gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch darpariaethau'r WTO yn y Bil Amaethyddiaeth (Rhan 7, Cytundeb y WTO ar Amaethyddiaeth).

Mae'r Cytundeb yn amlinellu'r broses gadarn sy'n sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol. Rwy'n gallu cadarnhau bod y Cytundeb rwyf wedi'i wneud gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yn llawer mwy nag ymrwymiad i gynnal ymgynghoriad, ac mae'n seiliedig ar ofyniad i weithredu ar sail consensws. Lle nad yw'n bosibl dod i gonsensws, mae'r Cytundeb yn gosod mecanweithiau clir a thryloyw y mae'n rhaid eu defnyddio i ddatrys anghydfodau.

O ran gwneud rheoliadau o dan y pwerau yn Rhan 7, bydd rheoliadau drafft yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru gyda'r nod o ddod i gytundeb, wedyn bydd llythyrau'n cael eu cyfnewid. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i Weinidogion Cymru amlinellu eu safbwynt, ac i'r Ysgrifennydd Gwladol esbonio'r rhesymau dros ffurf derfynol y rheoliadau a sut y mae Llywodraeth y DU wedi ceisio dod i gytundeb. Byddai unrhyw anghydfodau'n cael eu huwchgyfeirio'n unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth presennol sy'n ymdrin â'r berthynas rhwng Llywodraethau, ac unrhyw gytundebau ar ddatrys anghydfodau yn y dyfodol. Os ceir anghydfod, ar ôl defnyddio pob un o'r mecanweithiau hyn i ddatrys yr anghydfod, dylai'r llythyrau a gyfnewidiwyd gael eu rhoi i ddau Dŷ Senedd y DU cyn cynnal y bleidlais gadarnhaol ar y rheoliadau sy'n ofynnol o dan Ran 7.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae mecanwaith sy'n rhoi rôl glir i Weinidogion Cymru wrth benderfynu ar ddosbarthiadau cymorth ariannol hefyd yn rhan o'r Cytundeb. Bydd Gweinidogion Cymru yn cynnig dosbarthiadau cymorth ar gyfer cynhyrchwyr amaethyddol yng Nghymru, yn gyson â'r rheoliadau a wnaed o dan Ran 7 a'r proses fanwl a amlinellir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar y ffordd maent yn cael eu gweithredu. Bydd y dosbarthiad sydd wedi cael ei gynnig yn cael ei ystyried gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Amaethyddiaeth eraill y DU. Os deuir i gytundeb, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn hysbysu'r WTO am y dosbarthiad. Os na fydd modd dod i gonsensws trwy'r drefn datrys anghydfodau presennol, caiff y mater ei roi ger bron ‘panel o arbenigwyr i gael eu cyngor annibynnol ar y mater sy'n cael ei drafod. Mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried y cyngor hwn a rhannu ei benderfyniad a'r rheswm drosto â Gweinidogion Cymru.

Mae swyddogion yn gweithio gyda DEFRA ar becyn helaeth i fynd i'r afael â phryderon a leisiwyd gan y Pwyllgor yn ei adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf. Rwy'n gallu cadarnhau bod cynnydd da yn cael ei wneud yn hyn o beth, ac er nad wyf mewn sefyllfa i ymateb yn ffurfiol ar yr adeg hon, byddaf yn gwneud hynny yn fuan ar ôl i'r Bil ailgychwyn ar y broses seneddol.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs